| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **12 Medi 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** |
| **Teitl:** | **Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu – Model Gweithredu Newydd** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r newidiadau allweddol sydd wedi digwydd wrth ailstrwythuro'r Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu, a'r model gweithredu newydd ar gyfer y tîm hwn, gan amlinellu'r ffyrdd y bydd gwasanaethau yn cael eu darparu gan y tîm i ddiwallu'r perfformiad uwch sy'n ofynnol gan y Cyngor. (Bydd yr adroddiad adolygu llenyddiaeth yn dilyn yn ddiweddarach. Mae wedi bod yn anodd ei ddatblygu oherwydd y rhaglen ddigwyddiadau a blaenoriaethau eraill dros yr haf)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Y rheswm dros yr adroddiad yw darparu gwybodaeth ynglŷn â'r strwythur newydd a'r model gweithredu ar gyfer y Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu, a sicrhau bod aelodau yn deall y modd y bydd y tîm yn cyflawni dyheadau'r Cyngor. Mae hefyd yn bwysig bod aelodau yn teimlo yn hyderus y bydd yr agwedd hon yn cyflawni'r canlyniadau disgwyliedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

3.1 ystyried yr adroddiad, a rhoi sylwadau am y newidiadau a fu; ac yn

3.2 rhoi cefnogaeth ar gyfer yr agwedd newydd, ac ymgysylltu yn gadarnhaol yn y broses newid.

## 4. Manylion am yr Adroddiad.

Y peth allweddol sy'n cymell newid y gwasanaeth yw'r angen i ddarparu gwell perfformiad economaidd yn Sir Ddinbych trwy well marchnata a chyfathrebu, gan arwain at gynnydd mewn gweithgareddau economaidd, buddsoddiad a chreu swyddi. Nodwyd y gorchymyn hwn gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn 2012.

Y gofyniad allweddol arall ar gyfer newid yw'r angen i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer y tîm newydd i sicrhau bod y perfformiad uwch y gofynnir amdano yn bosibl ei gyflawni. Mae capasiti'r tîm presennol eisoes wedi'i nodi fel mater i'w ystyried.

Mae elfennau allweddol y newid wedi'u rhestru yn y tabl yn Atodiad 2 dan y golofn **Egwyddor Ailstrwythuro.** Mae'r colofnau eraill yn nodi effaith ddisgwyliedig y newid hwn ar y Blaenoriaethau Corfforaethol neu ar Uchelgais Economaidd a Rheoli Cyrchfan.

Mae siart strwythur wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad 1 a dylid cyfeirio ato gyda'r tabl.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

"Datblygu'r Economi Leol" – Bydd cylch gwaith a strwythur y tîm newydd yn sicrhau bod gwell ffocws ar ddatblygu rheoli cyrchfan a marchnata cyrchfan gyda rhyngwynebau allweddol wedi'u cytuno i adlewyrchu'r strwythur ac amcanion y tîm Datblygu Economaidd a Busnes.

"Moderneiddio'r cyngor i sicrhau arbedion a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid"
Bydd y tîm newydd yn gallu darparu gwasanaeth gwell a mwy effeithlon, yn bennaf trwy well trefniadau gwerthuso a rheoli perfformiad, a gwell cydlyniad.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau'r ailstrwythuro yn cynnwys costau rheoli prosiect sydd wedi'u cynnwys yn yr achos busnes gwreiddiol, a lwfans o £26K sydd wedi'i neilltuo ar gyfer yr adolygiad fel cost unigol o gyllideb 2011/12.

Bydd y tîm wedi'i ailstrwythuro yn darparu gwasanaeth mwy cyflawn ac wedi'i deilwra i wasanaethau eraill trwy gyflwyno gwasanaeth rheoli cyfrif a rheoli ymgyrch. Bydd rhai o'r rhain yn cynhyrchu incwm i dalu am ehangu'r cylch gwaith. (Yr Ymgyrch Faethu, er enghraifft)

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?

Mae agwedd gadarnhaol a rhagweithiol wedi'i chymryd mewn perthynas â'r nodwedd a ddiogelir "beichiogrwydd a mamolaeth" sy'n sicrhau hawliau cyflogaeth staff sydd ar gyfnod mamolaeth. (Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i atodi - Atodiad 3)

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol a ffurfiol gyda staff a gwasanaethau sydd wedi'u heffeithio yn uniongyrchol gan y newid. Cadwyd log ymgynghori yn ystod y prosiect, ac mae dogfen ymateb i ymgynghoriad ffurfiol wedi'i chyflwyno.
Ymgynghorwyd hefyd gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol (CET), yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT) a'r Cyngor trwy roi cyflwyniadau i bob un ohonynt. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth hefyd wedi bod ar gael i aelodau ar sail un i un.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'r rhagolygon ar gyfer arian cyhoeddus yn wael yn y tymor canolig ac mae'n debygol y bydd setliadau refeniw isel gan Lywodraeth Cymru yn parhau ar gyfer Sir Ddinbych y tu hwnt i'r cyfnod Cynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd. Mae hyn yn golygu ei bod yn bwysig iawn i wasanaethau'r Cyngor ystyried agwedd tymor byr i ganolig ar bob cynnig a sicrhau bod strwythurau staffio yn addas ar gyfer eu pwrpas ac mor effeithlon â phosibl i'r dyfodol.

Mae ailstrwythuro arfaethedig y Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu yn uno grwpiau unigol o staff o wahanol feysydd gwasanaeth yn uned sengl. Ond, er yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor, nid yw adolygiad presennol y tîm yn cael ei wneud i arbed costau ond yn hytrach i foderneiddio a gwella darpariaeth gwasanaeth a galluogi swyddogion i ganolbwyntio yn well ar flaenoriaethau strategol a chorfforaethol. Yr unig gyfyngiad a roddwyd o ran arian yw bod rhaid i'r gwaith o ailstrwythuro fod yn "gost niwtral", h.y. nad yw'r strwythur staffio newydd yn costio mwy na'r timau presennol. Mae'r cynigion a gyflwynir yn diwallu'r gofyniad hwn.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae'r risgiau yn cynnwys

- Y risg na ellir cyflawni'r disgwyliadau uchel sydd eu hangen.
  Bydd hyn yn cael ei liniaru trwy:
  - Swydd-ddisgrifiadau manwl
  - Rheoli Perfformiad
  - Rheoli Budd-ddeiliaid
- Y risg sy'n gysylltiedig â rheoli newid – gall morâl a chymhelliant staff ostwng.
  Bydd hyn yn cael ei liniaru trwy:
  - Ymgysylltu â staff dan arweiniad y Pennaeth Gwasanaeth
  - Rheoli newid a chynllun gwireddu buddion - Swyddog Arweiniol ac Arweinwyr Tîm

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

**Cyfansoddiad**

- *Erthygl 13.2 Egwyddorion Gwneud Penderfyniadau*
- Mae Erthygl 6.3.4(b) Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y gall "bwyllgorau archwilio adolygu a chraffu ar benderfyniadau a wnaed gan y Cabinet a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â phenderfyniadau unigol a dros amser."
- Mae paragraff 4.8.4(b) Rheolau Trefn y Cyngor, Rheolau Cyflogaeth Swyddogion, yn nodi mai "cyfrifoldeb Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig neu unigolyn a enwebwyd ganddo/ganddi yw penodi pob swyddog arall".

**Swyddog Cyswllt:** Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden:
Ffôn: 01824 712723